Yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mai 2018

Ar 1 Mai 2018 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 14 Mai 2018.